Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

Hairdressing

## Competition Overview

A hairdresser has the training and skills to cut or style hair in order to change or maintain a person's image. This is carried out using a combination of hair coloring, haircutting, and hair texturing techniques.

In this competition, competitors will be assessed on the skills and abilities required for this vibrant industry. They are expected to present themselves as a professional and be able to work safely and methodically through the timed tasks.

Live competition heats will be held at various venues across Wales

## Entry Criteria

This competition is for those training for a career in the Hair and Beauty Industry and studying towards a Level 2 or Level 3 qualification or have achieved this within 12 months. Please ensure your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to **2 per location**. **Reserves** may also be registered to account for potential absences or withdrawals.This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.

This is determined by ‘location’ and ‘organisation’.  ‘Organisation’ refers to the competitors’ training provider/employer. ‘Location’ refers to a site where the competitor studies / is employed. Learners who are employed or on an apprenticeship can register under their provider. These are in addition to the entries permitted by an organisation.

This competition may be subject to a selection process if competitor registration numbers exceed the host venue capacity. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete.
The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, click here.

## Brief

You will be required to undertake 3 tests:
**Test A:** Ladies Long Hair Styling Bridal Design (photographic entry) - Stage 1 Entry Submission – You will NOT need to re-create this test, your score from the Stage 1 entry will be submitted through photographic entry.

**Test B:** Ladies Long Hair Styling Modern Commercial Style with waves / curl and movement (1 hour) Live Competition – this test will be undertaken on the day of your allocated heat.

**Test C**: Ladies commercial, fashionable cut and colour that can be Symmetrical or Asymmetrical. Must be cut above the jawline and have a fringe (3 Hours). Live Competition – this test will be undertaken on the day of your allocated heat.

You will be required to carry out each look on mannequin head **TH1136**, available from Banbury Postiche. (www.banburypostiche.co.uk).

**Test A:** Ladies Long Hair Styling Bridal Design (photographic entry)

Competitors will be required to dress long hair during the competition to create a total look. Free choice of long hair design and your look can be an up style or down, any combination. Ornamentation is allowed, however this is not compulsory and must not cover more than 10% of the hair and must not be made from hair.

This task should be completed and sent to the competition lead on the template provided **by 5pm on Friday 15th January 2027**. The style will be judged prior to the day of competition, and marks will be carried over as part of the competition. **All confirmed learners, including reserves, are required to complete this task.** The template will be provided upon registration. Feedback will be provided on competition day.

**Test A Rules**
As part of your bridal hairstyle project, you must produce a moodboard that clearly demonstrates your inspiration, theme, colours, textures, and hairstyle ideas. Your moodboard must also include and correctly use at least 5 Welsh words or phrases relevant to the bridal

look. These Welsh terms will form part of the judging criteria and will contribute to your overall score.

Judges will award points for:
- Hairstyle
- Styling and finishing
- Continuity of design

**Hairstyle**
- Shape
- Style
- Balance
- Creativity
- Reflecting current fashion trend

**Finish**
- Inspiration and creativity
- Cleanliness of finish
- Balance & Shape

**Continuity of Design**
- Overall design shows a continuity in all aspects and a degree of difficulty
- Balance
- Total Look
- Continuity of all elements ( Style / Texture / Finish)

**NOTES:**
- You may complete the style on wet or dry hair
- Health and safety must be adhered to at all times throughout the competition.
- No backcombing should be showing except the effect forms part of the finished look and this is clearly reflected.
- No pins or bands showing.
- No added hair is allowed.
- No bun rings or padding is allowed.
- No makeup may be added to the mannequins.
- No jewellery may be added at any time.
- No dressing or draping of the mannequin is allowed.
- No cutting of the mannequin is allowed.
- The hair may be styled using a free choice of tools.
- All styling products are allowed.
- All styling tools are allowed.
- All finishing techniques are accepted.

- Finish should reflect the style created.
- On completion of the style, only ends may be cleaned with scissors, if desired**.**

**Test B:** Ladies Long Hair Styling Modern Commercial Style with waves / curl and movement
Duration: 1 hour

You should create a modern commercial Ladies hairstyle. Style that shows wave or curl and movement. You are free to use Ornamentation to compliment your look, however this is not compulsory, and any ornamentation used will NOT be independently judged or form part of the final score.

When planning for the style, it will have to be completed in the time limit above. There will be no facilities for climazones/heat accelerators. The final image MUST reflect individuality in design.

**No pre-preparation will be allowed (cutting, or setting) before arriving at the competition venue**. You will be judged throughout on your working methods, which will be judged on:

- Organisation of your work area
- Cleanliness of your work area
- Control and manipulation of the hair
- Health and Safety

Upon completion of your style, you will also be judged on your final result and judges will award points for:

- Hairstyle
- Styling and Finishing

**Hairstyle**

- Shape
- Style
- Balance
- Creativity

**Styling & Finish**

- Appropriate use of styling products
- Quality of the final finish (is it a Clean / Polished finish)
- Inspiration and creativity
- Balance
- Finish
- On completion of the style, only ends may be cleaned with scissors, if desired.

**Continuity of Design**

- The finished look must show waves or curls and movement / texture. If NO waves or Curls and movement / texture are present, then the lowest score available will be awarded, regardless of the above criteria

**NOTES:**

- Health and safety must be adhered to at all times throughout the competition
- All styling products are allowed
- All styling tools are allowed
- All finishing techniques are accepted
- No makeup to be added to the mannequins
- Jewellery maybe added once you have completed your style
- No cutting is allowed, only cleaning of ends on completed style
- The tuition head MUST NOT be coloured
- Free choice of combs and brushes may be used
- Ornamentation is optional but must complement the hairstyle
- Added hair cannot be used
- Bobby pins, Pins, Grips, Bands, Hairnets and padding are allowed, BUT MUST NOT be visible in the finished result/waves or curls must be included in the final look.

**Test C: Ladies commercial, fashionable cut and colour that can be Symmetrical or Asymmetrical. Must be cut to a minimum of chin length and have a fringe or face frame shaper.**

Duration - 3 hours

Competitors will be required to produce a commercial ladies fashion cut & colour, with the above requirements. This test is designed to demonstrate your creative skill as well as your ability to adapt your style commercially.

The haircut must be cut to a minimum of chin length or shorter at the front and no longer than 10cm from the hairline at the back. The finished result must contain a fringe / face frame shape but you have free choice in the colour design. Competitors will be required to carry out their look on the same mannequin head used for Test B – **TH1136** available from Banbury Postiche.

This test is intended to allow competitors to express creativity; and showcase the skill of the individual competitor. However, designs should be pleasing to the eye, and reflect current fashion trends in all aspects of the cut, colour and style without being extreme in form.

Competitors will be judged on the combination of cutting, colouring and styling / finishing skills, along with the finished representation. You will be judged throughout on your working methods, which will be judged on:

• Organization of your work area
• Cleanliness of your work area
• Control & manipulation of the hair
• Application of colour
• Cutting Skills
• Styling & Finishing Skills
• Health & Safety
• Sustainability

On completion of your work judges will award points for:
- Cut
- Colour
- Styling and finishing

**Cut**
- Shape, balance and structure.
- Precision
- Cohesiveness of the cut from all aspects

**Shade selection / Colour choice**
- Colour placement to suit the style
- Colour result – evenness of result of each shade
- Commercial use of colour (Marks will be deducted for excessive wastage of colour product)

**Styling & Finishing**
- Quality of the final finish
- Appropriate use of styling products

**You will be judged throughout your working methods, which will be judged on:**
- Organization of your work area
- Cleanliness of your work area
- Control & manipulation of the hair
- Application of colour
- Cutting Skills
- Styling & Finishing Skills
- Health & Safety
- Sustainability

**NOTES:**
- Health and safety must be adhered to at all times throughout the competition.
- Sustainability-once all colours have been applied you will be required to show your colour bowls to one of the scutineers on the floor who will judge colour wastage.

Points will be deducted for excessive waste (over 10g).
- The hair must be cut to a minimum of chin length or shorter in the front and the back must not exceed 10cm in length from the hairline.
- ALL hairdressing cutting tools ARE allowed, if using clippers, grades ARE allowed
- ONLY OXIDATIVE COLOUR can be used. (Permanent Colour / Demi Permanent Colour / Pre Lighteners)
- NO SEMI PERMANENT / DIRECT COLOURS will be allowed
- You MUST use a Minimum of 2 shades with a minimum of 2 levels of difference between the shades
- Any technique of application is accepted.
- 100% of the hair must be coloured.
- When mixing, applying and removing all colour, full PPE must be worn.
- All styling products are allowed.
- All styling tools are allowed.
- All finishing techniques are accepted.
- Finish should reflect the style created and the current Female Fashion market.
- Should show artistic lines in cut and colour to enhance finished look.
- No ornamentation is allowed.

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please click here to access.

## Infrastructure List

All competitors will be required to bring ALL required Tools and Equipment, including all Colours and Styling Products.

All competitors will need to bring the required Mannequin heads and a suitable tripod (No table clamps). PPE (aprons and gloves) will be supplied.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit.

### Competition specific rules

- **Competitors MUST bring the correct mannequin head for the competitions, as referenced in the Competition Description, from Banbury Postiche. No other mannequin heads are allowed to be used.**
- All work will be carried out in the allotted time for each competition.
- Mannequins may only be dressed or draped where stipulated.
- Eyelashes/make-up & jewellery may only be applied where stipulated.
- All competitors must bring their own equipment and products for both colouring and finish. This should include a suitable mannequin holder/tripod for mannequin heads.

- The host will provide only towels, electricity, water and workstation to include a mirror and trolley.
- All competitors are to bring and use Personal Protective Equipment where appropriate. This includes personal health and safety, wearing gloves, closed shoes and protective aprons
- All electrical equipment must be PAT tested before using at the competition. Those who do not comply with this rule will not be allowed to compete in the competition.
- Only competitors and the scrutinisers are allowed into the competition room while the competition is running.
- Competitors must work professionally at all times and must leave work stations in a clean and tidy order.
- No notes or diagrams can be taken into the competition room.
- No mobile phones or personal music devices are allowed in the competition room.

**Generic competition rules**

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief breakdown of marking and assessment.

| | | |
|---|---|---|
| **Test A:** Ladies Long Hair Styling – Bridal Design - photographic entry | Stage 1<br>Submission<br>Photographic entry, moodboard and 5% of marks allocated for us of Welsh language. | **25%** |
| **Test B:** Long Hair Styling - a modern commercial Ladies style | 1 Hour<br>Live Test | **25%** |

| | | |
|---|---|---|
| that shows wave or curl & movement | | |
| **Test C**: Ladies commercial, fashionable cut and colour that can be Symmetrical or Asymmetrical. Must be minimum chin length and have a fringe/face frame | 3 hour live test | **50%** |

Each competition test will be assessed and marked independently of the other test. For all criteria and their aspects the following marking scale will be used:

1. The work does not represent Performance that meets industry standards in any aspects
2. The work represents performance that meets minimum industry standards in all aspects
3. The work represents a good standard of performance above industry standards
4. The work represents exceptional performance well above industry standards

Once all marks have been agreed for each aspect of criterion, for each competitor, the marks will then be converted to obtain an individual weighted score for each test. The combined results of all 3 tests will determine the final placement of each competitor.

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. No results or awards will be awarded on the day, as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 18th March 2027, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event.

## Competition Lead

**Lead Contact:**

Vicky Williams - v.williams@merthyr.ac.uk

## Our partners

This competition is delivered in partnership with

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y Gystadleuaeth

Trin gwallt

## Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Mae gan driniwr gwallt yr hyfforddiant a'r sgiliau i dorri neu steilio gwallt er mwyn newid neu gynnal delwedd rhywun. Mae hyn yn digwydd gan ddefnyddio cyfuniad o liwio gwallt, ei dorri a thechnegau creu gwead.

Yn y gystadleuaeth hon, asesir cystadleuwyr ar y sgiliau a'r gallu sy'n ofynnol ar gyfer y diwydiant hwn. Disgwylir iddynt gyflwyno'u hunan fel gweithwyr proffesiynol a medru gweithio'n ddiogel a threfnus drwy'r tasgau sydd wedi'u hamseru.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Meini Prawf Mynediad

Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Gwallt a Harddwch ac sy'n astudio tuag at Gymhwyster Lefel 2 neu Lefel 3 neu sydd wedi cyflawni hyn o fewn 12 mis. Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gwblhau'r dasg.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad fesul sefydliad

Uchafswm o hyd at **2 o bob lleoliad**. Gellir cofrestru **cronfeydd wrth gefn** hefyd i gyfrifon absenoldeb neu dynnu'n ôl os bydd angen

Dyma uchafswm y nifer o geisiadau a ganiateir o un sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Caiff hyn ei benderfynu ar sail 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae'r 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae'r 'lleoliad' yn cyfeirio at safle ble mae'r cystadleuwyr yn astudio / cael eu cyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu.
Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

I gael rhagor o arweiniad ar y capasiti hyn, cliciwch yma.

## Briff

Bydd gofyn i chi wneud 3 phrawf:
**Prawf A:** Dylunio Steil Gwallt Hir i Ferched ar gyfer Priodas (cais ffotograffig) - Cyflwyniad Mynediad Cam 1 - NI FYDD rhaid i chi ailgreu'r prawf hwn, cyflwynir eich sgôr o'r cais Cam 1 trwy gyflwyniad ffotograffig.

**Prawf B:** Steilio Gwallt Hir mewn Steil Fodern a Masnachol ar gyfer merched, gyda thonnau/cyrls a symudiad (1 awr) Cystadleuaeth Fyw - cynhelir y prawf hwn ar ddiwrnod y rownd a ddyrannwyd i chi.

**Prawf C:** Torri a lliwio gwallt ffasiynol a masnachol ar gyfer merched, gall fod yn Gymesur neu'n Anghymesur Rhaid ei dorri uwchben llinell yr ên a chynnwys rhimyn (3 Awr). Cystadleuaeth Fyw – cynhelir y prawf hwn ar ddiwrnod y rownd a ddyrannwyd i chi

Bydd gofyn i chi wneud eich golwg ar y pen mannequin **TH1136**, sydd ar gael gan Banbury Postiche www.banburypostiche.co.uk

**Prawf A:** Dylunio Steil Gwallt Hir i Ferched ar gyfer Priodas (cais ffotograffig)

Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr drin gwallt hir yn ystod y gystadleuaeth i greu edrychiad cyflawn. Dewis rhydd o Ddyluniad Gwallt Hir a mae'r dewis o steil yn gallu bod yn steil gwallt lle mae'r gwallt i fyny neu i lawr. Mae addurniadau yn cael eu caniatau, ond does dim rhaid gwneud hyn ac ni ddylai orchuddio mwy na 10% o'r gwallt ac ni ddylai'r addurniadau cael eu gwneud o wallt.

Dylid cwblhau'r dasg hon a'i hanfon at arweinydd y gystadleuaeth ar y templed a ddarperir **erbyn 5pm ddydd Gwener 15 Ionawr 2027**. Bydd y steil yn cael ei feirniadu cyn diwrnod y gystadleuaeth, a bydd marciau'n cael eu trosglwyddo fel rhan o'r gystadleuaeth. **Mae'n ofynnol i bob dysgwr sydd wedi cadarnhau, gan gynnwys dysgwyr wrth gefn, gwblhau'r dasg hon.** Darperir y templed ar ôl cofrestru. Darperir adborth ar ddiwrnod y gystadleuaeth.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

**Rheolau Prawf A**

Fel rhan o'ch prosiect steilio gwallt ar gyfer priodas, mae'n rhaid i chi greu bwrdd syniadau sy'n dangos eich ysbrydoliaeth, thema, lliwiau, gweadau a syniadau ar gyfer steil gwallt yn glir. Rhaid i'ch bwrdd syniadau hefyd gynnwys a defnyddio o leiaf 5 gair neu ymadrodd Cymraeg sy'n berthnasol i'r edrychiad ar gyfer y briodas yn gywir. Bydd y termau Cymraeg hyn yn rhan o'r meini prawf beirniadu a byddant yn cyfrannu at eich sgôr gyffredinol.

Bydd y beirniaid yn dyfarnu pwyntiau ar gyfer:

- Steil y gwallt
- Steilio a Gorffennu
- Cysondeb y Dyluniad
-

**Steil y gwallt**

- Siâp
- Steil
- Cydbwysedd
- Creadigrwydd
- Adlewyrchu tueddiadau ffasiwn cyfredol

**Gorffeniad**

- Ysbrydoliaeth a chreadigrwydd
- Cywreinrwydd y gorffeniad
- Cydbwysedd a Steil

**Cysondeb y Dyluniad**

- Mae'r dyluniad cyflawn yn dangos cysondeb ym mhob agwedd yn ogystal ag elfen o anhawster
- Cydbwysedd
- Edrychiad Cyflawn
- Cysondeb pob elfen ( Steil / Gwead / Gorffeniad)

**NODIADAU**

- Gallwch greu'r steil gwallt ar wallt gwlyb neu sych.
- Ni ddylai unrhyw ôl-gribo fod ar ddangos oni bai bod yr effaith yn rhan o'r edrychiad gorffenedig a hynny wedi'i adlewyrchu yn glir.
- Dim pinnau na bandiau yn dangos.
- Ni chaniateir gwallt ychwanegol.
- Ni chaniateir siapiwr cocyn (*bun rings*) na deunydd padio.
- Ni chaniateir ychwanegu unrhyw golur ar y *mannequins*.
- Ni chaniateir ychwanegu gemwaith ar unrhyw adeg.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

- Ni chaniateir gwisgo nac addurno'r *mannequin*.
- Ni chaniateir torri'r *mannequin*.
- Gellir defnyddio unrhyw fath o offer i steilio'r gwallt.
- Caniateir pob math o gynnyrch steilio.
- Caniateir pob math o offer steilio.
- Derbynnir pob techneg gorffennu.
- Dylai'r gorffeniad adlewyrchu'r steil a grëwyd.
- Pan fydd y steil wedi'i gwblhau, caniateir twtio blaenau'r gwallt yn unig gyda siswrn, os dymunir gwneud hynny**.**

**Prawf B:** Steilio Gwallt Hir mewn Steil Fodern a Masnachol ar gyfer merched, gyda thonnau/cyrls a symudiad
Hyd: 1 awr

Dylech greu steil gwallt modern a masnachol ar gyfer merched. Arddull sy'n dangos tonnau neu gyrls a symudiad. Mae rhyddid i chi ddefnyddio Addurniadau i ategu'r gorffeniad, ond nid yw hyn yn orfodol, ac NI FYDD unrhyw addurniadau a ddefnyddir yn cael eu beirniadu ar wahân nac yn
ffurfio rhan o'r sgôr derfynol

Wrth gynllunio ar gyfer y steil, bydd yn rhaid ei gwblhau yn y terfyn amser sydd wedi ei nodi uchod. Ni fydd unrhyw gyfleusterau ar gyfer climazones/cyflymyddion gwres. RHAID i'r edrychiad gorffenedig ddangos elfen unigryw o ran ei ddyluniad.

**Ni chaniateir unrhyw baratoi o flaen llaw (torri, na gosod) cyn cyrraedd lleoliad y gystadleuaeth**. Byddwch yn cael eich beirniadu drwy gydol y gystadleuaeth ar eich dulliau gwaith. Byddwch yn cael eich beirniadu ar y canlynol:
•Trefn eich ardal waith
• Glendid eich ardal waith
• Rheoli a thrin y gwallt
• Iechyd a Diogelwch

Ar ôl cwblhau eich steil, byddwch hefyd yn cael eich beirniadu ar eich canlyniad terfynol a bydd beirniaid yn dyfarnu pwyntiau ar gyfer y canlynol:
- Steil gwallt
- Steilio a Gorffennu

**Steil y gwallt**
- Siâp
- Steil
- Cydbwysedd
- Creadigrwydd

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

**Steilio a Gorffeniad**

- Defnydd priodol o gynhyrchion steilio
- Ansawdd y gorffeniad terfynol (a yw'n orffeniad Glân / Caboledig)
- Ysbrydoliaeth a chreadigrwydd
- Cydbwysedd
- Gorffeniad
- Pan fydd y steil wedi'i gwblhau, caniateir twtio blaenau'r gwallt yn unig gyda siswrn, os dymunir gwneud hynny.

**Cysondeb y Dyluniad**

- Rhaid i'r edrychiad gorffenedig ddangos tonnau neu gyrls a symudiad / gwead. Os NAD OES tonnau neu gyrls a symudiad/gwead, rhoddir y sgôr isaf posibl, waeth beth fo'r meini prawf uchod

**NODIADAU**

- Rhaid cadw at reolau iechyd a diogelwch bob amser drwy gydol y gystadleuaeth
- Caniateir pob math o gynnyrch steilio
- Caniateir pob math o offer steilio
- Derbynnir pob techneg gorffennu
- Ni chaniateir rhoi colur ar y *mannequins*.
- Gellir ychwanegu gemwaith pan fyddwch wedi cwblhau eich steil
- Ni chaniateir unrhyw dorri, dim ond twtio'r blaenau pan fyddwch wedi cwblhau'r steil
- NI DDYLAI'R pen dysgu fod wedi'i liwio
- Gellir defnyddio unrhyw gribau ac unrhyw frwshys
- Mae addurniad yn ddewisol ond rhaid iddo ategu'r steil gwallt.
- Ni ellir defnyddio gwallt ychwanegol
- Caniateir pinnau 'Bobby', pinnau, clipiau, bandiau, rhwydi gwallt a phadin, ond RHAID I'R RHAIN BEIDIO â bod yn weladwy yn y canlyniad terfynol / rhaid cynnwys tonnau neu gyrls yn y gorffeniad terfynol.

**Prawf C: Torri a lliwio gwallt ffasiynol a masnachol ar gyfer merched, gall fod yn Gymesur neu'n Anghymesur Rhaid ei dorri hyd at yr ên o leiaf, a chynnwys rhimyn neu siapio ffrâm yr wyneb.**

Hyd – 3 awr

Bydd gofyn i gystadleuwyr i wneud toriad a lliw ffasiynol a masnachol i ferched sy'n ymateb y gofynion uchod. Rhaid I'r toriad a'r arddull gorffenedig adlewyrchu'r thema dewisol o doriad cymesur NEU anghymesur uwchlaw'r en gyda ffrinj addas ar gyfer tynnu llun. Mae gennych ddewis rhydd o ran y dyluniad lliw.

Rhaid torri'r torri gwallt hyd at yr ên o leiaf neu'n fyrrach ar y blaen a heb fod yn hirach na 10cm o'r llinell wallt yn y cefn. Rhaid i'r canlyniad gorffenedig gynnwys rhimyn / siâp ffrâm yr

wyneb ond mae gennych ddewis rhydd yn y dyluniad lliw. Bydd gofyn i gystadleuwyr gyflawni eu golwg ar yr un pen manecin a ddefnyddiwyd ar gyfer Prawf B – **TH1136** sydd ar gael o Banbury Postiche.

Bwriad y prawf hwn yw rhoi cyfle i gystadleuwyr ddangos eu creadigrwydd; ac arddangos sgil y cystadleuydd unigol. Fodd bynnag, dylai'r dyluniadau fod yn atyniadol o ran edrychiad ac yn adlewyrchu tueddiadau ffasiwn cyfredol o ran toriad, lliw a steil a hynny heb fod yn eithafol o ran eu ffurf.

Bydd beirniadaeth y gystadleuaeth yn seiliedig ar y cyfuniad o sgiliau torri, lliwio a steilio / gorffennu, ynghyd â'r adlewyrchiad gorffenedig. Byddwch yn cael eich beirniadu drwy gydol y gystadleuaeth ar eich dulliau gwaith. Byddwch yn cael eich beirniadu ar y canlynol:
- Trefn eich ardal waith
- Glendid eich ardal waith
- Rheoli a thrin y gwallt
- Lliwio
- Sgiliau Torri
- Sgiliau Steilio a Gorffen
- Iechyd a Diogelwch
- Cynaliadwyedd

Ar ôl cwblhau eich gwaith, bydd beirniaid yn dyfarnu pwyntiau ar gyfer y canlynol bydd y beirniaid yn dyfarnu pwyntiau ar gyfer:
- Torri
- Lliwio
- Steilio a gorffen

**Torri**
- Siâp, cydbwysedd a strwythur.
- Manwl gywirdeb
- Cydlyniant y toriad o bob ongl

**Dewis a dethol lliw**
- Lleoliad y lliw i gyd-fynd â'r steil
- Canlyniad y lliwio - cydbwysedd canlyniad pob arlliw
- Defnydd masnachol o liwiau (Tynnir marciau am wastraffu gormod o gynnyrch lliwio)

**Steilio a Gorffen**
- Ansawdd y gorffeniad terfynol
- Defnydd priodol o gynhyrchion steilio

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

**Byddwch yn cael eich beirniadu drwy gydol y gystadleuaeth ar eich dulliau gwaith. Byddwch yn cael eich beirniadu ar y canlynol:**

- Trefn eich ardal waith
- Glendid eich ardal waith
- Rheoli a thrin y gwallt
- Lliwio
- Sgiliau Torri
- Sgiliau Steilio a Gorffen
- Iechyd a Diogelwch
- Cynaliadwyedd

**NODIADAU**

- Mae'n rhaid cadw at reolau iechyd a diogelwch bob amser drwy gydol y gystadleuaeth.
- Cynaliadwyedd - unwaith y byddwch wedi gosod yr holl liwiau bydd yn ofynnol i chi ddangos eich powlenni lliw i un o'r archwilwyr ar lawr y gystadleuaeth a fydd yn beirniadu gwastraff lliw. Bydd pwyntiau'n cael eu tynnu ar gyfer gwastraff gormodol (dros 10g).
- Rhaid torri'r gwallt o leiaf hyd at linell yr ên neu'n fyrrach yn y blaen ac ni ddylai'r cefn fod yn hirach na 10cm o linell y gwallt.
- CANIATEIR POB offer torri trin gwallt. Os ydych chi'n defnyddio cliperi, CANIATEIR graddau.
- DIM OND LLIW OCSIDEIDDIOL y gellir ei ddefnyddio. (Lliw Parhaol / Lliw Demi-Barhaol / Cyn-oleuwyr)
- Ni chaniateir unrhyw LIWIAU LLED-BARHAOL / UNIONGYRCHOL
- RHAID i chi ddefnyddio o leiaf 2 arlliw gydag o leiaf 2 lefel o wahaniaeth rhwng yr arlliwiau
- Derbynnir unrhyw dechnegau taenu.
- Rhaid lliwio 100% o'r gwallt.
- Mae'n rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) wrth gymysgu, defnyddio a thynnu'r holl liwiau.
- Caniateir pob math o gynnyrch steilio.
- Caniateir pob math o offer steilio.
- Derbynnir pob techneg gorffennu.
- Dylai'r gorffeniad adlewyrchu'r steil a grëwyd yn ogystal â'r Farchnad Ffasiwn Gyfredol ar gyfer Merched.
- Dylai ddangos llinellau artistig o ran y torri a'r lliwio a fydd yn cyfoethogi'r edrychiad gorffenedig.
- Ni chaniateir defnyddio addurniadau.

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

Sgiliau Cymru, [cliciwch yma] i gael mynediad iddynt.

## Rhestr Seilwaith

Bydd yn ofynnol i bob cystadleuydd ddod â'r HOLL Offer a Chyfarpar angenrheidiol, gan gynnwys pob Lliw a Chynnyrch Steilio.

Bydd angen i bob cystadleuydd ddod â'r pennau *Mannequin* angenrheidiol a Thrybedd addas (DIM clampiau bwrdd). Darperir Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) (Ffedogau a Menig).

## Rheolau'r Gystadleuaeth

Am yr holl delerau ac amodau ynghylch ymgeisio a'r rheolau cystadlu [ewch i].

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- **Mae'n RHAID i bob cystadleuydd ddod â'r pen *mannequin* cywir ar gyfer y cystadlaethau fel y nodir yn y Disgrifiad o'r Gystadleuaeth, o Banbury Postiche. Ni chaniateir defnyddio unrhyw bennau *mannequin* eraill.**
- Cyflawnir y gwaith i gyd yn ystod y cyfnod o amser a bennir ar gyfer pob cystadleuaeth.
- Caniateir gwisgo neu addurno'r *mannequin* pan nodir hynny'n unig.
- Caniateir gosod blew amrant/colur a gemwaith pan nodir hynny'n unig.
- Mae'n rhaid i bob cystadleuydd ddod â'u cyfarpar a'u cynhyrchion eu hunain ar gyfer lliwio a gorffennu. Dylai hyn gynnwys cyfarpar dal/trybedd addas ar gyfer y pen *mannequin*.
- Bydd y ganolfan yn darparu tywelion, trydan, dŵr a gorsaf waith sy'n cynnwys drych a throli.
- Mae'n rhaid i bob cystadleuydd ddarparu a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) lle y bo'n addas. Mae hyn yn cynnwys iechyd a diogelwch personol, gwisgo menig, esgidiau caeedig a ffedogau diogelu.
- Mae'n rhaid i unrhyw offer trydanol fod wedi cael Prawf Dyfeisiau Cludadwy (PAT) cyn eu defnyddio yn y gystadleuaeth hon. Ni fydd hawl gan y rhai sydd ddim yn cydymffurfio â'r rheol hon i gystadlu yn y gystadleuaeth.
- Dim ond cystadleuwyr a'r archwilwyr a ganiateir yn ystafell y gystadleuaeth yn ystod y gystadleuaeth.
- Mae'n rhaid i gystadleuwyr weithio'n broffesiynol bob amser ac mae'n rhaid iddynt gadw eu gorsaf waith yn lân ac yn daclus.
- Ni chaniateir mynd ag unrhyw nodiadau na diagramau i mewn i ystafell y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir unrhyw ffonau symudol na dyfeisiau cerddoriaeth personol yn ystafell y gystadleuaeth.

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027

- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth gael eu gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau'r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Dylid rhoi gwybod i'r panel beirniadu am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Bydd tîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu'r Darparwr Hyfforddiant yn marcio ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu i sicrhau cysondeb.

Crynodeb byr o'r marcio a'r asesu.

| | | |
|---|---|---|
| **Prawf A:** Dylunio Steil Gwallt Hir i Ferched ar gyfer Priodas (cais ffotograffig) | Cam 1<br>Cyflwyniad<br>Cofnod ffotograffig, bwrdd syniadau a 5% o'r marciau wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd o'r Gymraeg | **25%** |
| **Prawf B:** Steilio Gwallt Hir mewn Steil Fodern a Masnachol ar gyfer merched, gyda thonnau/cyrls a symudiad | **1 awr**<br>**Prawf Byw** | **25%** |
| **Prawf C:** Torri a lliwio gwallt ffasiynol a masnachol ar gyfer merched, gall fod yn Gymesur neu'n Anghymesur Rhaid i'r gwallt fod hyd yr ên o leiaf a chynnwys rhimyn/fframio'r wyneb | **3 awr**<br>**Prawf Byw** | **50%** |

Caiff pob prawf yn y gystadleuaeth ei asesu a'i farcio yn annibynnol o'r profion eraill. Ar gyfer pob un o'r meini prawf a'i agweddau, defnyddir y raddfa farcio fel y ganlyn:

1. NID OES yr un agwedd o'r Gwaith yn bodloni Safonau'r Diwydiant
2. Mae pob agwedd ar y Gwaith yn bodloni Isafswm Safonau'r Diwydiant
3. Mae'r Gwaith yn arddangos Safonau Da sy'n Uwch na Safonau'r Diwydiant
4. Mae'r Gwaith yn llwyr arddangos Safonau Rhagorol sy'n uwch na Safonau'r Diwydiant

Unwaith y cytunir ar y marciau ar gyfer pob agwedd o'r meini prawf, ar gyfer pob

cystadleuydd, cânt eu trosi er mwyn cael sgôr terfynol unigol, wedi'i phwysoli, ar gyfer pob prawf. Bydd canlyniadau'r 3 phrawf yn cael eu cyfuno i bennu safle terfynol pob cystadleuydd.

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Darperir adborth llafar yn unigol ac mewn grŵp ar ddiwedd y gystadleuaeth. Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau yn cael eu rhoi ar y diwrnod gan y bydd y marcio'n cynnwys elfen sicrhau ansawdd.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 18 Mawrth 2027, bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

**Prif Gysylltiadau:**

Vicky Williams - v.williams@merthyr.ac.uk

## Ein partneriaid

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â

Y Coleg Merthyr Tudful
The College Merthyr Tydfil

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2027 – Skills Competition Wales 2027